NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Pembrolizumab gyda cemotherapi cyn llawdriniaeth ('neoadjuvant') a wedyn ar ei ben ei hun ('adjuvant') ar gyfer trin canser yr ysgyfaint nad yw'r celloedd yn fach a y gellir ei dynnu trwy llawdriniaeth

20 Tachwedd 2024

Mae pembrolizumab (Keytruda) ar gael ar y GIG  fel triniaeth bosibl ar gyfer canser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach mewn oedolion. Bydd ar gael os oes modd codi'r canser gyda llawdriniaeth (modd cynnal llawdriniaeth) ond bydd yn wynebu risg uchel o ddychwelyd, pan gaiff ei ddefnyddio:

- gyda chemotherapi seiliedig ar blatinwm cyn llawdriniaeth, yna
- ar ei ben ei hun ar ôl llawdriniaeth.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser yr ysgyfaint fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Lung Cancer Nursing UK, 01675 477607
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9481-6